# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Gwener, 8 Ionawr 2021

Amser: 09.30 - 11.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11115

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Margaret Davies, Llywodraeth Cymru<br>Matt Wellington, Llywodraeth Cymru<br>Anna Adams, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Rhiannon Lewis (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Cadeirydd: Trydedd Gyllideb Atodol 2020-21 - 23 Rhagfyr 2020

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru; Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni Cyllideb, Llywodraeth Cymru; ac Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth yr Is-adran Polisi Strategaeth Trethi ac Ymgysylltu, ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i wneud yr hyn a ganlyn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y gweithgor treth incwm;
- rhannu'r dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd gan yr holl golegau ynghylch effaith y cyfrifon dysgu personol;
- rhannu gwybodaeth am gostau newid y meini prawf ar gyfer prydau ysgol am ddim; a

- rhannu’r dadansoddiad o effaith creu band treth uwch ar gyfer trafodion eiddo amhreswyl.

## 4 Offerynnau Statudol ym maes treth: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru; Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni Cyllideb, Llywodraeth Cymru; ac Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth yr Is-adran Polisi Strategaeth Trethi ac Ymgysylltu, ynghylch offerynnau statudol ym maes treth.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Offerynnau Statudol ym maes treth: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i gyflwyno adroddiad ar yr offerynnau statudol.

## 8 Trafod llythyr drafft at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys: Ymchwiliad i'r Fframwaith Cyllidol; a’r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft.

## 9 Trafod y flaenraglen waith

9.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith.